# Ymgymryd ag archwiliad o’r glust allanol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag archwilio clust allanol yr unigolyn yn unig. Nid yw'n cynnwys triniaeth bellach a allai gael ei hargymell yn dilyn archwiliad o'r glust.

Gellir cynnal yr archwiliad mewn amrywiaeth o leoliadau gofal, gan gynnwys ysbytai – i gleifion mewnol ac allanol, meddygfeydd, cartrefi nyrsio a phreswyl, ac yng nghartref yr unigolyn ei hun.

Bwriedir i'r term "unigolion" gynnwys oedolion a phlant, er y gall fod polisïau a phrotocolau mewnol sy'n cyfyngu ar y grŵp y gallwch gynnal archwiliadau'r glust ar eu cyfer.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cyfathrebu â'r unigolyn a phobl allweddol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i ddealltwriaeth ac anghenion yr unigolyn, a'r hyn sy'n well ganddo
6. parchu hawliau a dymuniadau'r unigolyn o ran ei breifatrwydd, ei gredoau a'i urddas
7. darparu cymorth i'r unigolyn a gofalwyr a sicrhau bod mesurau iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu bob amser
8. cymryd camau rhagofalus safonol ar gyfer atal a rheoli heintiau a chamau iechyd a diogelwch perthnasol eraill
9. gwirio pwy yw'r unigolyn ac yna cadarnhau'r weithred arfaethedig
10. ennill cydsyniad gwybodus, dilys gan yr unigolyn yn unol â gweithdrefnau penodol
11. casglu'r cyfarpar, sicrhau ei fod yn gweithio'n dda, gan sicrhau yn arbennig bod digon o bŵer ym matris yr otosgop i gynhyrchu golau gwyn, ac atodi darn clust tafladwy neu ddarn ailddefnyddiadwy glân yn gadarn
12. gosod yr unigolyn mewn safle lle mae'n hawdd cael at y glust i'w harchwilio
13. gosod eich hun ar yr un lefel â'r unigolyn fel y gallwch gynnal yr archwiliad, gan ystyried diogelwch yr unigolyn a'ch cysur chi
14. dal y cyfarpar yn gywir i sicrhau diogelwch a chysur llwyr i'r unigolyn ac i ganiatáu'r maes golwg gorau i chi
15. gwirio cyflwr y glust allanol a'r croen o'i chwmpas, a gwneud nodyn o unrhyw annormaleddau
16. dewis sbecwlwm cywir ei faint yn ôl maint tiwb y glust a'i gysylltu'n dynn â'r otosgop
17. dal y pinna yn gywir i sythu tiwb y glust allanol a mewnosod yr otosgop yn ofalus i weld y glust allanol, gan chwilio am unrhyw annormaleddau
18. archwilio'r glust yn drylwyr ac achosi cyn lleied o anghysur â phosibl
19. tynnu'r otosgop o'r glust a thynnu'r sbecwlwm, a'i roi'n barod i'w lanhau
20. rhoi gwybod i'r unigolyn am y broses archwilio, y canfyddiadau a'r canlyniadau
21. cael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
22. cofnodi'ch canfyddiadau a rhoi gwybod i aelod staff priodol os bydd rhwystr yn y bibell, er mwyn gweithredu ymhellach

23. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. sut i addasu arddulliau cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion yr unigolyn
8. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
9. yr egwyddorion, yr ymarfer a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chydsyniad gwybodus
10. anghenion unigolion a gofalwyr, gan gynnwys ystyriaethau'n gysylltiedig ag urddas, cyfrinachedd a phreifatrwydd
11. strwythurau, rolau a chyfrifoldebau rheoli'r sefydliad
12. pwysigrwydd cymryd camau rhagofalus safonol wrth ymgymryd ag archwiliad o'r glust allanol a chanlyniadau posibl ymarfer gwael
13. anatomeg y glust (allanol, canol a mewnol)
14. pam mae'n bwysig archwilio'r glust allanol yn unig
15. yr arwyddion a'r symptomau y gall unigolyn gwyno amdanynt sy'n eich arwain chi a phobl eraill i amau bod problem â'r glust allanol
16. y mathau o golli clyw a sut i wella cyfathrebu ag unigolion sy'n drwm eu clyw
17. pam mae angen i chi ddweud wrth yr unigolyn beth rydych chi'n ei wneud
18. pwrpas otosgop a sut mae'n gweithio
19. beth fyddech chi'n ei wneud pe na bai'r otosgop yn gweithredu'n gywir
20. sut i lanhau pob math o gyfarpar ailddefnyddiadwy
21. pam mae'n bwysig gosod yr unigolyn a chi'ch hun yn gywir ar gyfer yr archwiliad
22. y ffordd ddiogel o ddal a defnyddio'r cyfarpar a pham mae hyn yn bwysig
23. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
24. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

Ymgymryd ag archwiliad o'r glust allanol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHCHS20 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Gweithwyr iechyd proffesiynol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lechyd, Galwedigaethau Gwasanaethau Personol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Iechyd Clinigol |
| **Geiriau Allweddol** | Archwiliad, clust, allanol |